

# CYNGOR TREF Y BALA TOWN COUNCIL

---

Swyddfa'r Cyngor, Yr Henblas, Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AE

Ffôn: Tel: 07786 662905

[cyngorybala@outlook.com](mailto:cyngorybala@outlook.com)

## Cofnodion Cyngor Tref Y Bala

4/9/2014

**Presennol:** Y Maer, Ivora Jones, Dilys Evans, Dorothi Evans, Sharon Evans, Dilwyn Jones, Eluned Jones, Alun Price, Islwyn Pritchard-Jones, Carol Rowlands, Y Cyngorydd Dilwyn Morgan, Y Clerc, Lis Puw. **Ymddiheuriadau:** Eifion Roberts, Edith Roberts, John C Williams

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb a soniodd am y pleser o gael cyfarfod unwaith eto yn yr Henblas a'r anrhydedd o gael eistedd yng nghadair y Maer. Soniodd am y cyfle a gafodd i gychwyn rasys nofio ar Lyn Tegid ac am groesawu John a Jo-Anne Bird o Bala, Ontario, Canada.
2. Derbyniwyd cyflwyniad gan gynrychiolwyr yr Heddlu a soniodd am ostyngiad o 17% mewn troseddu ym Mhenllyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roeddent yn falch hefyd i adrodd am leihad yn nifer y damweiniau difrifol yn yr ardal, ac yn priodoli hyn i broffil uchel yr heddlu yn targedu goryrru gan feicwyr modur. Mae'r heddlu yn parhau i weithio gyda'r asiantaethau cartrefi i gael gwared ar ymddygiad sy'n aflonyddu ar drigolion eraill. Soniwyd am yr ymgyrch "Got it logged" sef bâs-data i gofrestru eiddo megis camera, beic, ffôn symudol er mwyn iddo gael ei ddychwelyd os daw i feddiant yr heddlu. Gweler [www.immobilise.com](http://www.immobilise.com) Yr Arolygydd Dewi Jones sydd yn olynu Mark Armstrong ac edrychir ymlaen at ei gyfarfod yn fuan mewn cyfarfod o'r Cyngor. Diolchwyd yn gynnes iawn i Iwan Roberts ac i Lona Davenport am eu hadroddiad ac am eu gwaith trylwyr. Mae "Gan Bwyll" yn parhau i ddal llawer sy'n goryrru ar y ffyrdd sy'n dod mewn i'r dre. Cytunwyd i holi am ddata er mwyn gwneud cais i Adran cefnffyrdd y llywodraeth am oleuadau'n fflachio i atgoffa gyrwyr o'r cyfyngiad cyflymder. *Gweithredu: Clerc*
3. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
4. Nid oedd datganiadau buddiant.
6. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 4ydd Gorffennaf, 2014
7. Nid oedd materion yn codi o gofnodion Gorffennaf.
8. Materion y Cyngorydd Sir: Mae'r Cyngorydd Dilwyn Morgan wedi gwneud ymholiadau am arwyddion er mwyn diogelwch cerddwyr ar hyd llwybr glan y llyn. Mae'r Cynghorwyr Sir ym Mhenllyn yn ymdrechu gyda'i gilydd i gadw'r gwasanaeth sinema yn y dre ac wedi llwyddo i ennill mwyn o amser er mwyn cael trafodaeth bellach.
9. Materion lleol y Cynghorwyr Tref:

Cytunwyd i anfon at Fwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i gwyno nad oeddent wedi caniatáu gwasanaeth fferylllydd yn Y Bala dros Wyl y Banc ac i ofyn am sicrhad na fydd hyn yn digwydd eto. *Gweithredu: Clerc*

Cafwyd adroddiad gan Sharon Evans ac Eluned Jones o gyfarfod Grŵp Busnesau'r dref. Wrth werthfawrogi i'r Cyngor drefnu dwy gystadleuaeth ffenest siop yn 2014, mae'r grŵp hefyd wedi gwneud cais i'r Cyngor drefnu cystadleuaeth addurno ffenest siop at y Nadolig. Cytunwyd i wneud hyn. Awgrymwyd seremoni ar gyfer cynnau'r golau Nadolig. Trafodwyd cais gan y grŵp Twristiaid i godi Praesept er mwyn ariannu Canolfan Gwybodaeth i Dwristiaid; gofynnwyd i'r Clerc edrych mewn i briodoldeb ystyried hyn. *Gweithredu: Clerc*

Yn dilyn yr achos llwyddiannus diweddar yn erbyn perchennog ci a oedd wedi baeddu mewn man cyhoeddus, cytunwyd i ofyn i'r Swyddog Gorfodaeth roi sylw hefyd i ardal Heol Pensarn. Cytunwyd i anfon at Barc Cenedlaethol Eryri i ofyn am fwy o finiau ar hyd y llwybr yng nghyd â theclynnau i gadw bagiau plastic ar gyfer baw cŵn. *Gweithredu: Clerc*

Cytunodd y Cynghorydd Dilwyn Morgan i ofyn am arwydd yng nghanol y dref yn cyfeirio gyrwyr at faes parcio'r Plase. *Gweithredu: DM*

10. Trafodaeth ar fater y Lloches Bws: nid oes ymateb wedi dod i ail gais y Cyngor Tref i Gyngor Gwynedd am ystyriaeth i ddefnyddio'r Grŵn fel man codi teithwyr. Mae'r angen am loches bws i'r sawl sy'n teithio i gyfeiriad Wrecsam yn un dilys, ond nid oes safle hwylus ar y Stryd Fawr i greu gofod i fws dynnu mewn o'r ffordd. Gohiriwyd y drafodaeth hyd nes cael ateb am Y Grŵn.

11. Trafodaeth ar y sefyllfa ddiweddaraf parthed Y Domen: yn dilyn archwiliad peirianyddol, mae Cyngor Gwynedd (y perchnogion) wedi cymryd camau i sicrhau diogelwch y wal ac yn ceisio caniatâd a chyllid i wneud y gwaith angenrheidiol. Cytunwyd i roi'r mater ar Agenda mis Hydref.

12. Ystyriwyd prisiau plac dinesig a chytunodd Islwyn Pritchard Jones i wneud ymholiadau pellach. *Gweithredu: IPJ*

13. Ystyriwyd prisiau a lleoliad ar gyfer cadw beiciau. Roedd y Cynghorydd Dilwyn Morgan wedi cael cyngor gan Sustrans ac wedi trafod gyda pherchennog busnes yn y dref. Cytunodd Carol Rowlands i wneud ymholiadau pellach. *Gweithredu: CR*

#### **14. Materion Cynllunio :**

a) Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i ddiddymu rhai amodau o gais NP5/53/447A (Garej Bodolwyn)

b) Derbyniwyd gwybodaeth i'r Awdurdod wrthod cais i osod ffenest dormer a balconi a newid ffenest to yn Nhŷ seren, Heol Arennig

c) Derbyniwyd gwybodaeth i'r Awdurdod wrthod cais i ddiddymu Adran 106 ar yr Hen Ysgubor, Y Bala

ch) Derbyniwyd gwybodaeth i'r Awdurdod ganiatáu cais NP5/53/AD530, sef gosod arwyddion ar D H Jones, Rhif 6 Parc Menter

## 15. Materion Cyllid

- i. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol ddiweddaraf; mae grant gwella delwedd y dref (goleuadau Nadolig) wedi ei hawlio ond heb ei dderbyn hyd yn hyn.
- ii Cytunwyd i dalu anfonebau'r mis a chyflog y Clerc am fisoedd Gorffennaf ac Awst.
- iii Derbyniwyd ac arwyddwyd ffurflen Hacker Young.

## 16. Gohebiaeth

**Llywodraeth Cymru:** trafodwyd ymgynghoriad ar ail-drefnu llywodraeth leol a chytunwyd i ymateb gan fynegi fod llywodraeth gymunedol yn bwysig a bod angen i gymunedau lleol gael y pwerau a'r adnoddau i ddarparu gwasanaethau dyddiol i'r gymuned. Gallai uned ardal megis Y Bala a Phenllyn fod yn effeithiol i gadw llais yn lleol a gweithredu er budd y trigolion.

*Gweithredu: Clerc*

**Gwynedd:** Nodwyd derbyn Newyddlen Cynllun Datblygu Lleol ar y cyd Gwynedd a Môn.

**Un Llais Cymru:** Cytunodd Islwyn Pritchard Jones i gynrychioli'r Cyngor yn y Gynhadledd Flynyddol (4/10/14 yn Llanfair ym Muallt)

### Erail:

- i) Atebodd y Clerc llythyr yn tynnu sylw at y cyflwr Alzheimers gan gyfeirio at y cyfle a ellir ei ddarparu yng Nghanolfan Henblas i gael cymorth a chefnogaeth.
- ii) Darllenwyd llythyr yn diolch i'r Maer am ei phresenoldeb yn Ras Nofio Llyn Tegid ar 12 a 13 Gorffennaf. Derbyniwyd neges gan Eifion Roberts iddo gael amser diddorol yn cychwyn y ras feicio 24/8/14.
- iii) Gohiriwyd trafod cais i gefnogi OPRA Cymru tan gyfarfod arbennig Chwefror.
- iv) Mae'r gŵyn am ordyfiant yn ymyl 2 Heol y Domen yn cael sylw Cyngor Gwynedd.
- v) Derbyniwyd llythyr yn holi am wybodaeth Cyngor Tref Y Bala o'r Cytundeb ar gyfer rhedeg gwasanaeth bws cyhoeddus T3 (yr hen X94). Cytunwyd i ateb fod Cynghorwyr wedi ysgrifennu i wrthwynebu'r toriad a gynigwyd ac wedi mynychu cyfarfodydd cyhoeddus ymgynghorol, ond nad yw o fewn cylch gorchwyl cyngor cymuned a thref i archwilio Cytundebau. Cytunwyd i ychwanegu gwerthfawrogiad y Cyngor o waith diflino'r Aelod Cynulliad, Dafydd Elis Thomas (Plaid Cymru) a'r tri Cynghorydd Sir Lleol (Plaid Cymru) yn darbwylo'r gweinidog Edwina Hart (Llafur) o'r angen i gynnal y gwasanaeth hwn.
- vi) Derbyniwyd copi o gylchgrawn "Chwarae Cymru"

17. **Asedau'r Cyngor:** Diolchwyd i Carol Rowlands am archwilio'r asedau ym mis Awst a chytunwyd -

- Alun Price i roi sylw i'r tarmac ar y llwybr ar fin y llyn ac i foltau'r meinciau yno.
- Islwyn Pritchard Jones a John C Williams i osod fflagiau newydd.
- Clerc i fesur y ffrâm wybodaeth ar y Domen a sicrhau prisiau rhai newydd erbyn Hydref.
- Clerc i anfon at Smartwater i osod marciau diogelu ar y gofeb rhyfel.

**18. Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad gan y cynrychiolwyr yn sôn am Ganolfan Henblas a'r Agoriad swyddogol. Mynegwyd gwerthfawrogiad o'r hyn a lwyddwyd i'w gyflawni a balchder fod y Swyddfeydd bron i gyd wedi eu gosod. Roedd balchder hefyd fod cymaint o fudiadau ac asiantaethau cynghori wedi mynegi eu hawydd i ddefnyddio'r ystafell gwmsela breifat gyda mynediad preifat o Heol y Domen.

Adroddwyd y bu cyfarfod gyda Dilwyn Owen Williams yn ystod yr Haf i edrych mewn i gyfleoedd pellach i gyd-weithio gyda Chyngor Gwynedd. Cytunwyd i drafod mis nesaf syniadau sut y gall Partneriaeth Penllyn gefnogi gwaith Cyngor Gwynedd yn lleol, yn arbennig yn wyneb y toriadau a orfodir ar y Cyngor Sir a'r galw cynyddol am wasanaethau oddi wrth boblogaeth sy'n heneiddio. Cyfeiriwyd at y gwaith arbennig a wneir gan "Heneiddio'n Dda" yn Y Bala.

*Amser gorffen: 9.30pm*